**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Gorffennaf 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 17. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ms J. Hughes.

## 18. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) - MAI 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 468 | Sage & Co | 31.00 | Ffioedd Cyflogres Mehefin 2018 |
| 518 | HSBC | 6.30 | Taliadau banc 17/04/18 i 16/05/18 |
| 519 | BT | 123.48 | Rhentu llinell rhyngrwyd |
| 475 | Cyngor Sir Ddinbych | 707.00 | TANC ar gyfer Ffordd Wellington – taliad 3 o 10 |
| 476 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 3 o 12 |
| 525 | Cyngor Sir y Fflint | 4,256.44 | Cyfraniadau Pensiwn a Chyllid Diffyg Mai 2018 |
| 526 | HMRC | 2,735.19 | Didyniadau Cyflog Mai 2018 |
| 527 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,885.13 | Cyflogau staff Mehefin 2018 |
| 528 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Mai 2018 |
| 530 | BT | 156.09 | Rhentu Llinell BT |
| | Cyfanswm Taliadau | £17,257.29 | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 19. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor,

cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 531 | Design 2 Print (Llandudno) Ltd | Cylchlythyr - argraffu | 1,477.00 |
| 532 | Pottles Premier Plants Ltd | Planhigion haf 2018 | 9,520.80 |
| | | **Cyfanswm taliadau** | **£10,997.80** |

*A chymeradwywyd yr ychwanegiad canlynol i'r rhestr o ddarparwyr cymeradwy:*

- Design 2 Print (Llandudno) Ltd – Argraffu cylchlythyr

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**20. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN (B5119 FFORDD DYSERTH, BRON HAUL A PEN Y MAES AVENUE, Y RHYL) (GWAHARDD AROS) 201**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y gorchymyn rheoli traffig fel cynllun sydd fawr ei angen.*

**[Datganodd y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard a Ms V. Roberts eu buddiannau rhagfarnus yn yr eitem uchod a gadawsant y siambr heb gymryd rhan bellach yn y trafodaethau na'r pleidleisio arni]**

**21. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN PARCIO ODDI AR Y STRYD, 201 QUEEN STREET, Y RHYL – MAES PARCIO NEWYDD ARFAETHEDIG, DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFORDD 1984.**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn yr uchod (a ddosbrthwyd gyda'r rhaglen).

Mewn ymteb i gwestiwn gan aelod ynglŷn â pam 8.30am tan 10.30am, dywedodd aelod ei fod i wrthannog parcio dros nos, gan ychwanegu bod y cynllun yn un peilot ac yn rhedeg am dair blynedd, gan ddechrau ar 20fed Gorffennaf a bod sylwadau'r Cyngor Tref yn rhy hwyr.

Adroddodd Clerc y Dref nad oedd yr ymgynghoriad wedi ei dderbyn tan ganol mis Mehefin ac mai'r cyfarfod hwn oed y cyntaf ar gael i ystyried y mater.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y maes parcio arfaethedig newydd a bod Clerc y Dref yn holi a gawsai rhai gyda thrwyddedau parcio blynyddol ddefnyddio'r maes parcio, ac i gynnwys ystyriaeth ar gyfer mannau parcio i rieni/plant.*

## 22. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – UWCHGYNLLUN CANOL Y DREF Y RHYL

Ymehllach i gofnod rhif 119 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Chwefror 2018, adroddodd Clerc y Dref bod gweithdy i'w gynnal ar 17eg Gorffennaf yn Neuadd y Dref y Rhyl rhwng 1.30pm a 4.30pm a 5.30pm hyd at 8.30pm, a gofynnodd i'r cynghorwyr nad oedd wedi ymateb eto i'r ymgynghorwyr i wneud hynny.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr wybodaeth.*

## 23. GOHEBIAETH: CYNGOR YSGOL EMANIWEL

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gyflwyno system draffig un ffordd o gwmpas yr ysgol.

Roedd yr aelodau yn falch o dderbyn y cais gan gyngor yr ysgol.

Teimlent bod y syniad yn un da yn ddamcaniaethol, ond yn un a allai fod yn anodd ei gyflwyno oherwydd yr effaith a allai ei gael ar ardal lle'r oedd tagfeydd eisoes, a bod hyn yn broblem ym mhob ysgol yn y Rhyl.

Dywedodd aelod bod system conau syml a fabwysiadwyd gan Ysgol Mair yn ymddangos fel un sy'n gweithio'n dda a gallai fod yn rhywbeth y gallai Ysgol Emaniwel ei ystyried hefyd?

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Ysgol Emaniwel i ddiolch am eu llythyr a'u hysbysu y byddai'n cael ei anfon at Gyngor Sir Ddinbych gyda chefnogaeth y Cyngor Tref, i'w ystyried.*

**[Datganodd Clerc y Dref fuddiant rhagfarnus yn yr eitem uchod a gadawodd y siambr heb gymryd urhyw ran bellach yn y trafodaethau]**

## 24. GOHEBIAETH: CYNGOR SIR DDINBYCH – ARCHWILIAD MANNAU AGORED SIR DDINBYCH - CASGLIADAU

Ymhellach i gofnod rhif 51 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21ain Medi 216 (archwiliad ac asesiad o Fannau Agored yn Sir Ddinbych), adroddodd Clerc y Dref iddo derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeëdig) yn hysbysu bod y ddogfen ddrafft derfynol nawr ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac y byddai'n llywio penderfyniadau yn y dyfodol yn ymwneud â Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych a chytundebau Adran 106 yn deillio o ddatblygiadau (copïau o'r ddogfen ar gael i'r aelodau os dymunent eu cael).

Ychwanegodd Clerc y Def bod y sylwadau a wnaed gan y Cyngor Tref wedi eu cynnwys.

Mewn mater cysylltiedig, adroddodd aelod bod angen diweddaru'r mapiau digidol ar wefan y Cyngor Tref, gan eu bod yn dal i ddangos mannau fel yr Heulfan.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y ddogfen ddrafft a bod Clerc y Dref yn trefnu bod yr hen fapiau ward yn cael eu disodli.*

**25. GOHEBIAETH: CHRIS RUANE AS**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn gohebiaeth gan Chris Ruane AS yn hysbysu'r Cyngor o Raglen NYTH Llywodraeth Cymru ac yn argymell bod y Cyngor Tref yn derbyn cyflwyniad gan y Rheolwr Partneriaeth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y gwahoddiad yn cael ei roi i'r Rheolwr Partnerieth.*

**26. DYDDIAU PARCIO AM DDIM CYNGOR SIR DDINBYCH**

Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau bod 5 diwrnod parcio am ddim ar gael bob blwyddyn a gofynnodd am awdurdod i ddefnyddio 1 ar gyfer digwyddiad "Retro Rhyl" yn amodol ar esboniad ynglŷn ag argaeledd meysydd parcio.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo defnyddio un diwnod ar gyfer y digwyddiad.*

***PENDERFYNWYD YMNHELLACH*** *gohirio Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dfref ymateb fel mater o frys.*

**27. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Dwyedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i'w codi.

**28. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**29. EITEM GYFRINACHOL GAN AELOD: ADEILAD GWAG AR Y STRYD FAWR**

Cyferiodd Aelod at siop fanwerthu a oedd yn wag ar hyn o bryd ar Stryd Fawr y Rhyl ac awgrymodd y dylai'r Cyngor Tref, ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych, ystyried prynu'r adeilad ar gyfer ei ailwampio fel Hyb Cymunedol i gynnwys lleoliad cerddoriaeth, amgueddfa a chaffi ar y llawr gwaelod. Cyferiodd yr Aelod at bryniannau tebyg a oedd wedi eu hariannu trwy gyfrwng y Loteri Genedlaethol.

Teimlai'r Aelodau yn gyffredinol bod y syniad yn un i'w ganmol, ond:

- Na fyddai'n medru denu cyllid gan y Cyngor Sir oherwydd cyfyngiadau cyllideb a oedd yn bodoli.
- Roedd risg y gallai'r defnydd arfaethedig fynd â busnes i ffwrdd o fusnesau canol y dref
- Bod y Cyngor Tref eisoes wedi ei ymrwymo'n ariannol am gyfnod estynedig
- Y byddai'r Cyngor Sir ar hyn o bryd ond yn cymryd rhan os oedd yn arwain at elfen dai

Dywedodd aelod y gellid cyflawni'r cynllun gyda'r Cynghorydd yn sefydlu Elusen i'r pwrpas.

Ar ôl ystyried y sylwadau, tynnodd yr Aelod yr eitem yn ôl.

## 30. EITEMAU ER GWYBDOAETH: SUL DINESIG A PHARTI GARDD Y MAER

Gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau hynny a oedd eto i ymateb i'r ebost yn ddiweddar gan Ysgrifennydd y Maer, i wneud hynny nawr.

## 31. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:……………….……..

Dyddiad: ……………………..